



Canolfan Farchogaeth - Telerau Llogi o 1 Medi 2022

Telerau ac Amodau Defnydd

Mae'r telerau ac amodau defnydd canlynol yn berthnasol i unrhyw sefydliad neu farchog unigol sydd eisiau llogi'r Ganolfan Farchogaeth. Mae marchogaeth ceffylau yn gamp beryglus ac rydych yn cymryd rhan ar eich menter eich hun. Mae pob gofal wedi ei gymryd i gynnal a chadw'r cyfleusterau mewn cyflwr diogel, ond mae'n rhaid i farchogwyr gymryd sylw o'r rheolau canlynol ac unrhyw gyfarwyddiadau ychwanegol maent yn eu cael.

Telerau Archebu

1. Mae'n rhaid i'r sefydliad sy'n llogi'r cyfleuster sicrhau bod ganddo o leiaf £5 miliwn o Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus (copi o dystysgrif yswiriant i'w ddangos gyda'r cytundeb 'Telerau Llogi' wedi ei lofnodi).
2. Mae'n rhaid i farchogwr unigol sy'n llogi'r cyfleuster sicrhau bod ganddo o leiaf £1 miliwn o Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus (copi o dystysgrif yswiriant i'w ddangos gyda'r cytundeb 'Telerau Llogi' wedi ei lofnodi).
3. Rydym yn argymhell yn gryf bod gan bob llogwr ei yswiriant personol ac yswiriant ceffylau.
4. Mae'n rhaid i bob marchog sydd o dan 18 oed fod â chaniatâd ei rieni.
5. Mae'n rhaid i bob marchog sydd o dan 18 oed fod yng nghwmni oedolyn.
6. Mae'n rhaid i bob llogwr fod yng nghwmni o leiaf un person cyfrifol arall, rhag ofn y bydd argyfwng.
7. Rhaid defnyddio'r cyfleusterau mewn modd synhwyrol sy'n cyd-fynd â lefel profiad y marchog(wyr) a'r ceffyl neu ferlen.
8. Mae marchogwyr yn cymryd rhan yn ôl eu risg eu hunain.
9. Rhaid gwisgo hetiau marchogaeth safonol cyfredol (PAS015, EN1384), esgidiau marchogaeth hyd llawn neu esgidiau Jodhpur. Ni chaniateir mathau eraill o esgidiau.
10. Mae'n rhaid i bob cyfleuster sy'n cael ei ddefnyddio cael ei adael mewn cyflwr glân a thaclus; bydd ffi ychwanegol yn cael ei chodi am unrhyw gyfleuster sy'n cael ei adael yn anniben neu'n fudr. Rhaid codi baw a sbwriel oddi ar y llawr, ac mae'n rhaid gadael yr ardal barcio yn daclus.
11. Cyfrifoldeb y llogwr neu farchog yw pob achos o offer yn torri, a chodir ffi am hyn. Os bydd rhywbeth yn cael ei dorri, rhaid rhoi gwybod i staff Canolfan Farchogaeth Coleg Gwent.
12. Rhaid cadw pob ci ar dennyn trwy'r amser.
13. Nid yw Coleg Gwent yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am ddwyn/difrod i eiddo trydydd parti. Nid oes modd darparu cyfleusterau storio. Pan fo llogwyr yn cael caniatâd i adael offer ar y safle, maent yn gwneud hynny ar eu menter eu hunain.
14. Peidiwch â chlymu ceffylau/merlod tu allan i gerbydau a'u gadael heb oruchwyliaeth
15. Rhaid i bob ceffyl sy'n ymweld fod wedi'u brechu yn erbyn fflîw ceffylau a rhaid bod pasbortau ceffylau ar gael i'w harchwilio.
16. Rhaid i logwyr gadw at slot amser penodol fel nad ydynt yn amharu ar drefniadau pobl eraill.

Er mwyn sicrhau bod cyflwr arwyneb yr arena mor dda â phosibl drwy'r adeg, gofynnwn y canlynol:

17. Ni ddylid gadael ceffylau'n rhydd na'u marchogaeth yn rhydd yn yr arenâu.
18. Peidiwch â mynd ag unrhyw wellt/gwywair/bwyd anifeiliaid na bwyd phobl i'r arenâu
19. Rydym yn gofyn ichi beidio â chlymu ceffylau yn yr arena, a pheidiwch byth â gadael ceffyl heb oruchwyliaeth

Rhaid i bob hyfforddwr marchogaeth sy'n defnyddio cyfleusterau Ceffylau Coleg Gwent fod â'i yswiriant ei hun, tystysgrif diogelwch plant a hyfforddiant cymorth cyntaf ar gyfer cynnig gwersi, ac efallai bydd hefyd angen cyflwyno copi i Coleg Gwent.



Telerau Talu

Mae archebion yn daladwy'n llawn ar ôl i'r anfoneb gael ei hanfon.

Mae ffioedd llogi wedi'u nodi ar dudalen 3 y cytundeb hwn.

Telerau Canslo

Archebion llogi fesul awr - mae angen 24 awr o rybudd

Archebion ar gyfer digwyddiadau - mae angen 72 awr o rybudd

Rhaid canslo yn ysgrifenedig, a'i anfon i: Canolfan Farchogaeth, Coleg Gwent, Campws Brynbuga, y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1XJ. Rydym hefyd yn derbyn e-byst. Anfonwch e-bost i: equine.events@coleggwent.ac.uk
Bydd methu â rhoi rhybudd o ganslo yn golygu bod rhaid ichi dalu'r ffi llogi lawn.

Telerau ychwanegol ar gyfer trefnwyr digwyddiadau

20. Mae'n rhaid i'r llogwr/trefnydd y digwyddiad sicrhau bod asesiad risg priodol wedi ei wneud ar gyfer eu gweithgareddau o fewn yr ardal farchogaeth. Rhaid cyflwyno copi o'r asesiad risg i Goleg Gwent, ynghyd ag enwau'r unigolion sydd wedi eu henwebu fel cynrychiolwyr iechyd a diogelwch, cymorth cyntaf a stiwardio'r maes parcio. Rhaid i'r llogwr/trefnydd y digwyddiad gyflwyno asesiad risg wedi ei adolygu pan fo Coleg Gwent yn gofyn. Dylai'r llogwr/trefnydd y digwyddiad fod yn ymwybodol eu bod yn gyfrifol am lechyd a Diogelwch eu marchogwyr, gwesteion, anifeiliaid ac offer.
21. Rydym yn gofyn bod unrhyw unigolyn neu sefydliad sy'n llogi ein cyfleusterau ar gyfer digwyddiad fod yn gyfrifol am y cymorth cyntaf drwy gydol y cyfnod a archebwyd y cyfleusterau. Nid yw Coleg Gwent yn cynnig unrhyw ddarpariaeth cymorth cyntaf.
22. Rhaid i'r llogwr sicrhau bod nifer y cyfranogwyr/cystadleuwyr o fewn y digwyddiad yn cyd-fynd â nifer y lleoedd parcio sy'n berthnasol i'r cyfleusterau sydd ar gael (dim mwy na 30 cerbyd ceffylau) ar unrhyw adeg.
23. Rhaid i'r llogwr gynnal cofnod cywir o'r holl bobl sy'n mynychu'r safle sydd ynghlwm â'u harcheb.

Rydym wedi cymryd yr holl gamau rhesymol i sicrhau diogelwch y ceffylau a'r marchogwyr, rhaid i chi gymryd camau rhesymol i osgoi a rhwystro damweiniau rhag digwydd. Mae Coleg Gwent yn cadw pob hawl i fynnu bod rhywun yn gadael y cyfleusterau mewn achos o farchogaeth peryglus, cam-drin y ceffyl neu ddiffyg cwrteisi cyffredin. Nid yw Coleg Gwent, nag unrhyw berson yn gweithredu ar ran y Coleg, yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled, niwed, damwain, anaf neu afiechyd ceffyl, marchog, gwylwyr nag unrhyw berson arall ar yr eiddo o gwbl.

Ymwadiad

Rwyf i, yr unigolyn sydd wedi llofnodi isod, drwy hyn yn cytuno â'r amodau defnyddio ac yn rhyddhau unrhyw atebolrwydd cyfreithiol yn erbyn Coleg Gwent am unrhyw anaf personol a gafwyd neu ddifrod sy'n deillio o ddefnyddio'r Ganolfan Farchogaeth ar Gampws Brynbuga neu unrhyw hawliadau neu unrhyw rwymedigaethau o gwbl, hysbys neu anhysbys, sydd bellach yn bodoli neu a all godi yn y dyfodol, ar gyfrif neu mewn unrhyw ffordd sy'n gysylltiedig â, neu'n deillio o, ddefnyddio'r Ganolfan Farchogaeth.



Cwblhewch y canlynol fel sy'n briodol:

I'w gwblhau gan Riant / Gwarcheidwad Marchogion sy'n iau na 18 oed			
Llofnodwyd		Dyddiad	
Enw Llawn (priflythrennau)			

I'w gwblhau gan Farchogion 18 oed neu'n hŷn			
Llofnodwyd		Dyddiad	
Enw Llawn (priflythrennau)			

I'w gwblhau gan Gynrychiolydd Sefydliad			
Llofnodwyd		Dyddiad	
Enw Llawn (priflythrennau)			

Defnydd Coleg yn unig

I'w gwblhau gan Bartner Busnes Cyllid y Gyfadran			
Llofnodwyd		Dyddiad	
Enw Llawn (priflythrennau)			



Ffioedd Llogi o 1 Medi 2022

Llogi fesul Awr	Yr Awr (£)		
Arena Dan Do	£30		
Arena Awyr Agored	£25		
Offer Neidio/ Ffensys XC Arena	£5		
		Hanner Diwrnod (£) (Hyd at bedair awr)	Diwrnod Llawn (£) (Rhwyng 08:00 - 18:00)
Llogi ar gyfer Digwyddiad			
Arena Dan Do		£100	£200
Arena Awyr Agored		£80	£160
Offer Neidio/ Ffensys XC Arena		£25	£50
Arena Dan Do ac Arena Awyr Agored		£180	£300
Cyfleusterau Ychwanegol			
Y Dosbarth		PRIS AR GAIS	PRIS AR GAIS

Mae Digwyddiad yn cael ei ystyried yn fenter fasnachol pan fo cyfranogwyr yn talu ffi mynediad er mwyn cymryd rhan.

Nodwch, bydd ffi glanhau o £25 yn cael ei chodi ar gyfer pob ardal os na fydd y cyfleusterau yn cael eu gadael mewn cyflwr rhesymol o lân a thaclus wedi ichi eu defnyddio.

Noder, mae'r sesiynau llogi canlynol yn amodol ar argaeledd.

Dydd Llun - Dydd Iau

Mae'r arenâu ar gael i'w llogi rhwng 4:30pm - 8pm, a rhaid gadael y safle'n llwyr erbyn 8:30pm.

Dydd Gwener

Mae'r arenâu ar gael i'w llogi rhwng 4:30pm - 5:30pm, a rhaid gadael y safle'n llwyr erbyn 6pm.

Dydd Sadwrn a Dydd Sul

Mae'r arenâu ar gael i'w llogi rhwng 8am - 5:30pm ar gyfer sesiynau diwrnod llawn.

Y sesiwn hwyraf i'w llogi fesul awr neu hanner diwrnod yw rhwng 4pm - 5pm.

Gall gostyngiadau fod yn gymwys yn ôl disgrisiwn y busnes.